**Rhif: WG52914**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig)

Cynigion ar gyfer diwygiadau i 'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru' yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Mis Rhagfyr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 'Diwygiadau i 'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru' a gynhaliwyd am 12 wythnos rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2025.

Wrth grynhoi'r ymatebion a ddaeth i law, dylid nodi bod rhai ymatebion yn cynnwys sylwadau sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynnwys ffeithiau anghywir yn sgil camddeall y rheoliadau a/neu'r diwygiadau arfaethedig.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r gwaith o ddrafftio diwygiadau terfynol i'r cod, y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a negeseuon cyfathrebu a chanllawiau i'r diwygiadau yn y dyfodol.

## Y camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

**Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: resourceefficiencyandcirculareconomy@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Diwygiadau i Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru

**Cynnwys**

Cynnwys ... 3
1. Cyflwyniad ... 4
2. Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi ... 4
3. Beth ddywedoch chi wrthym ni ... 7

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 'Diwygiadau i 'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru' a gynhaliwyd am 12 wythnos rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2025.

Wrth grynhoi'r ymatebion a ddaeth i law, dylid nodi bod rhai ymatebion yn cynnwys sylwadau sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynnwys ffeithiau anghywir yn sgil camddeall y rheoliadau a/neu'r diwygiadau arfaethedig.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r gwaith o ddrafftio diwygiadau terfynol i'r cod, y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a negeseuon cyfathrebu a chanllawiau i'r diwygiadau yn y dyfodol.

### 1.1. Cefndir

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer sy'n darparu canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â gofynion gwahanu'r Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024.

Mae'r diwygiadau yn gweithredu'r ymrwymiad yr ymgynghorwyd yn flaenorol arno, sy'n ei gwneud yn ofynnol i safleoedd annomestig gyflwyno cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach ar wahân i'w casglu erbyn Ebrill 2026 ac i wella eglurder a chysondeb yn dilyn adborth ers gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

## 2. Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

### 2.1 Newidiadau arfaethedig i'r cod i gynnwys sWEEE

Mae'r cod cyfan wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, sef y bydd yn ofynnol, o 6 Ebrill 2026 ymlaen, i safleoedd annomestig gyflwyno cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) ar wahân i'w casglu a'u hailgylchu. Ar hyn o bryd, dim ond sWEEE heb ei werthu sy'n rhaid ei wahanu.

Mae'r disgrifiad diwygiedig arfaethedig o'r ffrwd wastraff hon o fewn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a'r cod fel a ganlyn:

- cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach

Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y cod at sWEEE 'heb ei werthu' wedi'u dileu. Bydd y disgrifiad hwn yn cynnwys sWEEE heb ei werthu.

**Diwygiadau arfaethedig i atodiadau'r cod**

Mae **Atodiadau 1-6 y cod** yn rhestru pa is-ffracsiynau y dylid ac na ddylid eu rhoi yn y chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy benodedig: papur a cherdyn; cartonau, metel a phlastig; gwydr; bwyd; sWEEE; a thecstilau heb eu gwerthu. Bydd y rhestrau hyn yn esblygu dros amser yn seiliedig ar fewnbwn rhanddeiliaid, mathau newydd o ddeunydd

pacio, gwelliannau ym maes technoleg ailgylchu, ac er mwyn cysoni â deddfwriaeth arall.

Mae'n anodd ailgylchu **polypropylen ymestynedig** ar raddfa fawr ar hyn o bryd. Yn sgil adborth gan randdeiliaid, rydym yn cynnig ei ddileu o Atodiad 2, a fyddai hefyd yn gofyn am ddiwygiad i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Nid yw **deunydd pecynnu pothell** (a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer deunydd fferyllol a thabledi) yn cael eu hailgylchu'n aml, ac mae angen prosesu arbenigol ar eu cyfer. Gwnaethom gynnig eu hychwanegu at Atodiad 2 fel is-ffracsiwn *na* ddylid ei roi yn y ffrwd cartonau, metel a phlastig.

Ni ddylid rhoi **gwastraff peryglus** mewn unrhyw ffrwd gwastraff ailgylchadwy. Mae diweddariadau i'r cod yn egluro y dylid trin gwastraff sydd wedi'i ddosbarthu'n beryglus o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 yn unol â hynny. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr, ac mae'r cod bellach yn cynnwys dolenni i ganllawiau ar gyfer adnabod a rheoli gwastraff peryglus.

**Enghreifftiau o weithleoedd defnydd cymysg**

Yn adran 5, mae'r cod yn darparu canllawiau ar yr ystyriaethau y gall gweithle eu harchwilio i nodi a oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Nodir yn glir fod enghreifftiau o safleoedd annomestig at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, rydym wedi cynnig dileu'r ddwy enghraifft o safleoedd defnydd cymysg posibl ym mharagraff 5.5 gan na thybiwyd eu bod yn angenrheidiol nac yn darparu'r enghreifftiau gorau yn y cyd-destun hwn. O ystyried y rhestr ehangach o ffyrdd o helpu pobl i bennu a oes rhaid iddynt ddilyn y gofynion gwahanu, rydym o'r farn nad oes angen unrhyw enghreifftiau.

**Nid yw ysbytai yn esempt mwyach o'r gofynion gwahanu**

Cafodd ysbytai esemptiad o ddwy flynedd o'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, a fydd yn dod i ben yn awtomatig ar ddiwedd 5 Ebrill 2026. Felly, o 6 Ebrill 2026 ymlaen, bydd rhaid i ysbytai gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Mae'r cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

Nid yw'r esemptiad hwn ar gyfer ysbytai yn bolisi newydd ac mae y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a oedd y cod yn ei gwneud yn glir na fydd yr esemptiad hwn yn berthnasol mwyach o 6 Ebrill 2026 ymlaen yn unig.

2.2 Y cwestiynau a ofynnwyd gennym

Cwestiwn 1: Nodwch pa sector rydych chi'n ei gynrychioli?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n fodlon ei bod yn ddigon clir o fewn y cod fod sWEEE o safleoedd annomestig bellach yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n fodlon bod y diweddariadau a wnaed i baragraffau 4.18 a 6.8 o'r cod yn ddigon clir?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y ddwy enghraifft benodol o weithleoedd defnydd cymysg ym mharagraff 5.5?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n fodlon bod y ffaith bod yr esemptiad ar gyfer ysbytai yn dod i ben wedi'i esbonio'n glir yn y cod?

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu deunydd pecynnu pothell (fel y'i disgrifir uchod) at y rhestr o is-ffracsiynau na ddylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 2?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n fodlon bod y disgrifiad o ddeunydd pecynnu pothell a ddefnyddir yn y cod, sef deunydd pecynnu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer deunydd fferyllol a thabledi eraill sy'n cynnwys ceudodau neu bocedi plastig wedi'u rhagffurfio sydd fel arfer wedi'u selio â sêl caead wedi'i wneud o ffoil alwminiwm neu ffilm blastig, yn ddigon clir?

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared ar bolypropylen ymestynedig o'r rhestr o is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 2?

Cwestiwn 9: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diweddariadau arfaethedig i'r cod ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Cwestiwn 10. Yn eich barn chi, a oes modd llunio neu newid y diweddariadau arfaethedig i'r cod fel eu bod yn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol o ran defnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

**2.3 Yr Ymatebwyr**

Daeth cyfanswm o 41 o ymatebion i law gan bob math o sefydliadau amrywiol, gan gynnwys ymatebion a gyflwynwyd gan unigolion. Mae Tabl 1 yn cynnwys rhestr y rhai a ymatebodd yn ôl y math o sefydliad.

*Tabl 1: Cwestiwn 1 - Nifer yr ymatebion yn ôl y math o sefydliad*

| Math o Ymatebydd | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr (%) |
|---|---|---|
| **i) Busnes** | 14 | 34% |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 1 | 2% |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 5 | 12% |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 8 | 20% |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 3 | 7% |
| **Dim un o'r uchod** | 10 | 24% |
| **Cyfanswm** | **41** | **100%** |

## 3. Beth ddywedoch chi wrthym ni

### 3.1 Argraffiadau cyffredinol

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cefnogi pob diwygiad arfaethedig i'r cod a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd cytundeb cyffredinol ei bod yn amlwg bod rhaid i safleoedd annomestig gyflwyno sWEEE (nid dim ond eitemau heb eu gwerthu yn unig) ar wahân i'w casglu gan wasanaethau gwastraff. Fodd bynnag, er nad yw'n gysylltiedig â chynnwys y cod, mynegodd sawl ymatebydd bryderon y gallai busnesau bach gael trafferth asesu a yw eu gwastraff yn beryglus oherwydd cymhlethdod y canllawiau gwastraff peryglus presennol sy'n gysylltiedig â'r cod.


### 3.2 Trosolwg o’r ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion ac yn nodi nifer yr ymatebion i bob cwestiwn caeedig gan gynnwys ymatebion fel "Ydw", "Nac ydw" neu "Dim barn”. Mewn rhai achosion, ni roddwyd ymateb, ac mae hyn hefyd yn cael ei gofnodi fel 'heb ymateb’. Ar gyfer pob cwestiwn, darparwyd blwch i ymatebwyr esbonio’r ateb a roddwyd ac mae'r prif themâu a gododd o'r ymatebion wedi'u crynhoi isod hefyd.

### Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE)

### Cwestiwn 2: Ydych chi'n fodlon ei bod yn ddigon clir o fewn y cod fod sWEEE o safleoedd annomestig bellach yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu?

Mae'r cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiad arfaethedig i Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 i gynnwys sWEEE o 6 Ebrill 2026 ymlaen. Y disgrifiad arfaethedig o'r ffrwd wastraff hon o fewn Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a'r cod yw cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach. Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y cod at sWEEE 'heb ei werthu' wedi'u dileu.




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 2 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 2.

*Tabl 2: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 2:Ydych chi'n fodlon ei bod yn ddigon clir o fewn y cod fod sWEEE o safleoedd annomestig bellach yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu?*

| **Math o Ymatebydd** | **i) Bodlon iawn** | **ii) Gweddol fodlon** | **iii) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon** | **iv) Anfodlon** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 8 | 3 | 2 | 1 | 14 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 3 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 4 | 3 | 0 | 1 | 8 |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **Dim un o'r uchod** | 6 | 4 | 0 | 0 | 10 |
| **Cyfanswm** | **25** | **12** | **2** | **2** | **41** |
| **Canran (%)** | **61%** | **29%** | **5%** | **5%** | |

Roedd 90% o'r ymatebwyr naill ai'n 'fodlon iawn' (61%) neu'n 'weddol fodlon' (29%) ei bod yn ddigon clir o fewn y cod fod sWEEE o safleoedd annomestig bellach yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu.


Roedd un cwmni rheoli gwastraff a ymatebodd ei fod yn fodlon iawn yn 'gobeithio y bydd hyn yn lleihau halogiad, ac yn lleihau'r risg o danau, mewn cerbydau casglu a safleoedd prosesu.'

O'r ddau ymatebydd anfodlon (5%), dywedodd un fod y cod yn aneglur ac yn ddryslyd. Nododd un gwasanaeth casglu gwastraff awdurdod lleol fod y diffiniad o sWEEE (llai na 50cm ar yr ymyl hiraf) yn wahanol i'r hyn maen nhw'n ei ddefnyddio i ddiffinio bach (h.y. llai na 30cm), a bod sgriniau cyfrifiaduron, setiau teledu a phoptai microdon yn rhy fawr i'w cerbydau casglu penodol.

**Eitemau gwastraff ailgylchadwy y gellir eu hystyried yn beryglus o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005**

**Cwestiwn 3. Ydych chi'n fodlon bod y diweddariadau a wnaed i baragraffau 4.18 a 6.8 o'r cod yn ddigon clir?**

Rydym wedi diweddaru adrannau 4.18 a 6.8 o'r cod i dynnu sylw at y ffaith mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoleiddiwr y gyfundrefn gwastraff peryglus yma yng Nghymru, a hefyd wedi cynnwys dolen i ganllawiau ar wahân a allai helpu darllenwyr y cod i nodi a yw eu gwastraff yn wastraff peryglus, neu'n cynnwys gwastraff peryglus, a beth i'w wneud os ydynt wedi asesu eu gwastraff ac yn ansicr a yw'n cael ei ddosbarthu fel gwastraff peryglus.




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 3 wedi’u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.

*Tabl 3: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 3 -. Ydych chi'n fodlon bod y diweddariadau a wnaed i baragraffau 4.18 a 6.8 o'r cod yn ddigon clir?*

| Math o Ymatebydd | i) Bodlon iawn | ii) Gweddol fodlon | iii) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | iv) Anfodlon | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 7 | 2 | 2 | 3 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 3 | 2 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 4 | 1 | 0 | 3 | 8 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| **Dim un o'r uchod** | 4 | 3 | 0 | 2 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **20** | **10** | **2** | **8** | 40 | **1** |
| **Canran (%)** | **50%** | **25%** | **5%** | **20%** | 100% | |

Roedd 75% o'r ymatebwyr naill ai'n fodlon iawn (50%) neu'n fodlon i raddau (25%) bod y diweddariadau a wnaed i baragraffau 4.18 a 6.8 o'r Cod yn ddigon clir.

Nid oedd un rhan o bump (20%) yn fodlon â'r diweddariadau arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys tri busnes, tri darparwr gwasanaeth casglu gwastraff awdurdod lleol a dau sefydliad a ddewisodd gategori y math o sefydliad, 'Dim un o'r uchod'.


Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn ei bod hi'n afrealistig disgwyl i berchnogion busnesau bach neu leoliadau annomestig eraill asesu a yw eitem i'w dosbarthu fel un beryglus ai peidio, gydag un sefydliad yn awgrymu y gallai hyn arwain at waredu amhriodol yn sgil bod yn or-ofalus. Ymatebodd un busnes fod y rheoliadau'n darparu enghreifftiau amwys yn hytrach na chanllawiau clir y gellid eu gweithredu, gan dynnu sylw at eu profiad eu hunain o ymgynghori â chasglwyr am gyngor cyn cael eu cyfeirio at CNC, sy'n amlygu'r 'bwlch gwybodaeth cylchol'.

Er bod y sylwadau hyn yn ymwneud â'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) presennol (2005) a'r canllawiau cysylltiedig ar wastraff peryglus y mae'r Cod yn gysylltiedig â nhw, yn hytrach na chynnwys y cod ei hun, mae angen darparu cyngor lefel mynediad mwy cyffredinol er mwyn helpu gweithleoedd i lywio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 i gynorthwyo cydymffurfiaeth ac atal niwed amgylcheddol.

**Enghreifftiau o weithleoedd defnydd cymysg**

**Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y ddwy enghraifft benodol o weithleoedd defnydd cymysg ym mharagraff 5.5?**

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, rydym wedi cynnig dileu'r ddwy enghraifft o eiddo defnydd cymysg posibl ym mharagraff 5.5 gan na thybiwyd eu bod yn angenrheidiol nac yn darparu'r enghreifftiau gorau yn y cyd-destun hwn. O ystyried y rhestr ehangach o ffyrdd o helpu pobl i bennu a oes rhaid iddynt ddilyn y gofynion gwahanu, rydym o'r farn nad oes angen unrhyw enghreifftiau.




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 4 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 4.

*Tabl 4: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn4 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y ddwy enghraifft benodol o weithleoedd defnydd cymysg ym mharagraff 5.5?*

| Math o Ymatebydd | i) Ydw | ii) Nac ydw | iii) Dim barn | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 5 | 3 | 6 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 3 | 0 | 2 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 5 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 2 | 1 | 0 | 3 | 0 |
| **Dim un o'r uchod** | 4 | 2 | 3 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **6** | **15** | **40** | **1** |
| **Canran (%)** | **48%** | **15%** | **38%** | **100%** | |

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (48%) yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y ddwy enghraifft benodol o weithleoedd defnydd cymysg ym mharagraff 5.5. Nid oedd gan 38% arall unrhyw farn ar y cwestiwn hwn. Nid oedd 15% o blaid y cynnig.

Awgrymodd Cymdeithas Fasnach a gefnogodd y cynnig, y dylid darparu enghraifft arall yn lle hynny. Nodwyd hefyd ganddynt y byddent yn 'croesawu mwy o eglurder ar y dull gorfodi ar gyfer unig fasnachwyr sy'n gweithio gartref', yn ogystal â thrafodaethau pellach ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth dan amgylcheddau o'r fath.


Roedd y rhai a oedd yn anghytuno (15%) â'r cynnig i ddileu'r enghreifftiau, yn gwneud hynny ar y sail bod enghreifftiau yn ddefnyddiol i ddangos y polisi yn glir. Awgrymodd un

ymatebydd y byddai enghreifftiau sy'n cwmpasu gweithleoedd masnachol a phreswyl, megis cartrefi nyrsio, yn ddefnyddiol iawn.

**Nid yw ysbytai yn esempt mwyach o'r gofynion gwahanu**

**Cwestiwn 5. Ydych chi'n fodlon bod y ffaith bod yr esemptiad ar gyfer ysbytai yn dod i ben wedi'i esbonio'n glir yn y cod?**

Cafodd ysbytai esemptiad o ddwy flynedd o'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, a fydd yn dod i ben yn awtomatig ar ddiwedd 5 Ebrill 2026. Felly, o 6 Ebrill 2026 ymlaen, bydd rhaid i ysbytai gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Mae'r cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 5 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 5.

*Tabl 5: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 5 - Ydych chi'n fodlon bod y ffaith bod yr esemptiad ar gyfer ysbytai yn dod i ben wedi'i esbonio'n glir yn y cod?*

| Math o Ymatebydd | i) Bodlon iawn | ii) Gweddol fodlon | iii) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | iv) Anfodlon | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 9 | 0 | 4 | 1 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 7 | 1 | 0 | 0 | 8 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| **Dim un o'r uchod** | 7 | 2 | 0 | 0 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **32** | **3** | **4** | **1** | 40 | 1 |
| **Canran (%)** | **80%** | **8%** | **10%** | **3%** | **100%** | |

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (88%) naill ai'n fodlon iawn (80%) neu'n gweddol fodlon (8%) â'r newidiadau arfaethedig sy'n nodi y bydd angen i ysbytai gydymffurfio â'r gofynion gwahanu.


Ymatebodd Awdurdod Lleol ei fod yn fodlon ar y cyfan, ac fel darparwr gwasanaeth casglu gwastraff awdurdod na fyddai'n gallu gwasanaethu ysbyty, gan gwestiynu a yw cwmnïau preifat yn barod ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O'r rhai nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon, neu a atebodd 'ddim yn fodlon', ni chafwyd unrhyw sylwadau nac awgrymiadau pellach ar gyfer gwella.

Yn ôl un Gymdeithas Fasnach a oedd yn 'gweddol fodlon', er nodi ei bod yn fodlon â'r eglurder ynghylch dod â'r esemptiad i ben, dywedodd fod aelodau wedi nodi rhai pryderon ynglŷn â halogi ffrydiau deunyddiau mewn ysbytai.

**Diwygiadau i'r rhestr o is-ffracsiynau gwastraff**

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu deunydd pecynnu pothell (fel y'i disgrifir uchod) at y rhestr o is-ffracsiynau na ddylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 2?**




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 6 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 6.

*Tabl 6: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu deunydd pecynnu pothell (fel y'i disgrifir uchod) at y rhestr o is-ffracsiynau na ddylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 2?*

| Math o Ymatebydd | i) Ydw | ii) Nac ydw | iii) Dim barn | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 9 | 3 | 2 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 6 | 1 | 1 | 8 | 0 |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| **Dim un o'r uchod** | 8 | 1 | 0 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **29** | **6** | **4** | **39** | **2** |
| **Canran (%)** | **74%** | **15%** | **10%** | **100%** | |


Roedd bron i dri chwarter (74%) o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid rhoi deunydd pecynnu pothell yn llif gwastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig. Ymatebodd un sefydliad aelodaeth fod 'awdurdodau lleol yn gweld deunydd pecynnu pothell fel halogion eithaf rheolaidd mewn ffrydiau ailgylchu, ac rydym ni'n cefnogi'r negeseuon a'r iaith glir o fewn y canllawiau.'

Nid oedd gan 10% o'r ymatebwyr unrhyw farn.

O'r rhai a oedd yn anghytuno (15%), roedd sylwadau yn cynnwys:

- Dim ond cyfran fach o gwsmeriaid sy'n cynhyrchu deunydd pecynnu pothell neu gymysg, ond gallai eu gwastraff halogi'r mwyafrif nad ydynt yn gwneud hynny
- Nid yw'n glir ble yng Nghymru y mae yna gyfleusterau i wahanu deunyddiau cymysg (halogedig) yn effeithiol
- Yn hytrach na gwahardd deunyddiau anodd (e.e., deunyddiau pecynnu pothell), dylid gwella'r seilwaith ailgylchu i'w trin yn effeithiol

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n fodlon bod y disgrifiad o ddeunydd pecynnu pothell a ddefnyddir yn y cod, sef deunydd pecynnu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer deunydd fferyllol a thabledi eraill sy'n cynnwys ceudodau neu bocedi plastig wedi'u rhagffurfio sydd fel arfer wedi'u selio â sêl caead wedi'i wneud o ffoil alwminiwm neu ffilm blastig, yn ddigon clir?**




Mae'r ymatebion i Gwestiwn 7 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 7.

*Tabl 7: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 7 - Ydych chi'n fodlon bod y disgrifiad o ddeunydd pecynnu pothell a ddefnyddir yn y cod, sef deunydd pecynnu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer deunydd fferyllol a thabledi eraill sy'n cynnwys ceudodau neu bocedi plastig wedi'u rhagffurfio sydd fel arfer wedi'u selio â sêl caead wedi'i wneud o ffoil alwminiwm neu ffilm blastig, yn ddigon clir?*

| Math o Ymatebydd | i) Bodlon iawn | ii) Gweddol fodlon | iii) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | iv) Anfodlon | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 8 | 2 | 3 | 1 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 2 | 6 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 |
| **Dim un o'r uchod** | 6 | 2 | 1 | 0 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **24** | **10** | **5** | **1** | **40** | **1** |
| **Canran (%)** | **60%** | **25%** | **13%** | **3%** | **100%** | |

Yn gyffredinol, roedd 85% o'r ymatebwyr naill ai'n fodlon iawn (60%) neu'n weddol fodlon (25%) bod y diffiniad o ddeunydd pecynnu pothell a ddefnyddir yn y cod yn ddigon clir.

Roedd y rhai a oedd yn weddol fodlon yn cytuno bod y disgrifiad yn ddigon clir ond dywedodd un sefydliad na ellid disgwyl i'r rhestr o eitemau o fewn y cod ymarfer fod yn gynhwysfawr. O'r rhai nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon, dywedodd un y dylai'r ffocws fod ar sut y mae'r gwastraff yn cael ei drin.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared ar bolypropylen ymestynedig o'r rhestr o is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 2?**

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 8 wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd ac wedi'u crynhoi yn Nhabl 8.

*Tabl 8: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared ar bolypropylen ymestynedig o'r rhestr o is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig a geir yn Atodiad 8?*

| Math o Ymatebydd | i) Ydw | ii) Nac ydw | iii) Dim barn | Cyfanswm | Heb Ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **i) Busnes** | 6 | 5 | 3 | 14 | 0 |
| **ii) Sefydliad trydydd sector** | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| **iii) Sefydliad sector cyhoeddus** | 3 | 1 | 1 | 5 | 0 |
| **iv) Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol** | 7 | 0 | 1 | 8 | 0 |
| **v) Cwmni rheoli gwastraff** | 3 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| **Dim un o'r uchod** | 8 | 1 | 0 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **27** | **7** | **6** | **40** | 1 |
| **Canran (%)** | **68%** | **18%** | **15%** | **100%** | |

Roedd 68% yn cytuno y dylid cael gwared ar bolypropylen ymestynedig (EP) o'r rhestr o is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig, gyda 15% pellach heb unrhyw farn. Dywedodd Awdurdod Lleol a oedd yn cefnogi tynnu polypropylen ymestynedig o'r rhestr, nad yw'r deunydd yn cael ei ailgylchu'n eang a'i fod yn cyflwyno risg sylweddol o halogi yn y broses ailgylchu; 'Mae ei eithrio hefyd yn cyd-fynd ag ymdrechion ehangach i leihau'r defnydd o ddeunydd pacio plastig untro na ellir ei ailgylchu, a thrwy hynny gefnogi arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.'

Y prif ymateb a roddwyd gan y 18% a oedd yn anghytuno, gan gynnwys 5 busnes, oedd eu bod yn credu y dylai opsiynau ailgylchu fod ar gael i EP, ac y dylai'r llywodraeth gefnogi hyn. Mae un busnes yn awgrymu nad yw EP yn addas ar gyfer gwaredu gwastraff cymysg oherwydd dwysedd isel y deunydd pacio cyffredin ond y gellir ei ailgylchu yn ludyddion.

Dywedodd un sefydliad eu bod yn croesawu tynnu'r math hwn o ddeunydd pecynnu o'r rhestr o is-ffracsiynau oherwydd ei fod yn fwyfwy problematig pan gaiff ei waredu'n anghywir. Fodd bynnag, fe wnaethant ailadrodd eu safbwynt na ellir disgwyl i'r rhestr o eitemau fod yn un gynhwysfawr.

**Cwestiwn 9: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diweddariadau arfaethedig i'r cod ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn ar y cwestiwn hwn, ac roedd sawl un yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg.

Awgrymodd Sefydliad Sector Cyhoeddus y gallai'r Cod 'argymell y dylai'r holl ddeunyddiau sy'n llygad y cyhoedd (e.e. labeli biniau, posteri, taflenni) fod ar gael yn y ddwy iaith.'

**Cwestiwn 10. Yn eich barn chi, a oes modd llunio neu newid y diweddariadau arfaethedig i'r cod fel eu bod yn:**

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol o ran defnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr farn ar y cwestiwn hwn.

Ymatebodd Awdurdod Lleol nad yw'n ymddangos bod y diweddariadau arfaethedig i'r cod yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, a bod cyfleoedd clir i hyrwyddo ei ddefnydd. Dywedodd y cyngor eu bod yn cyflogi nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg sy'n gallu hwyluso cyngor ac arweiniad yn eu dewis iaith.

**Cwestiwn 11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.** Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol i'r newidiadau a'r egwyddorion arfaethedig wrth wraidd y Cod Ymarfer diwygiedig. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon ymarferol, logistaidd a gorfodi, yn enwedig mewn perthynas â busnesau bach, ardaloedd gwledig, a chysondeb ar draws awdurdodau lleol.

- Er bod croeso i'r mesurau arfaethedig, roedd busnesau bach yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael gafael ar ddarparwyr gwasanaethau ailgylchu a gwastraff. Awgrymodd un sefydliad y dylai busnesau bach allu mynd â symiau bach o wastraff nad yw'n beryglus (e.e. eitemau trydanol bach, deunyddiau pecynnu pothell) i fannau ailgylchu awdurdodau lleol, yn union fel defnyddwyr domestig.
- Ym marn un Gymdeithas Fasnach, byddai'n arfer da i Lywodraeth Cymru gynnwys tabl newid ar ddechrau'r ddogfen, er mwyn crynhoi ac amlygu ble mae'r newidiadau allweddol yn y ddogfen.
- Awgrymodd Sefydliad Sector Cyhoeddus y dylai'r cod diwygiedig ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer lleoliadau lle mai dim ond lle storio cyfyngedig sydd gan fusnesau bach ar gyfer cynwysyddion lluosog ac i rai mewn ardaloedd gwledig lle mae yna amseroedd teithio hirach ar gyfer y rowndiau casglu.
- Roedd Awdurdodau Lleol yn awgrymu cydlynu cryfach rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a thimau gorfodi cynghorau lleol, er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr a chasglwyr yn cydymffurfio â'r rheolau.
- Mae Sefydliad Sector Cyhoeddus wedi gofyn am eglurder ynghylch a yw sbwriel sy'n cael ei gasglu gan Awdurdodau Sbwriel nad ydynt yn Brif Awdurdodau Sbwriel yn ddarostyngedig i'r un gofynion gwahanu â gwastraff arall a reolir.

- **Atodiad 1: Rhestr o’r ymatebwyr**
- Nid yw’r rhestr hon yn cynnwys yr ymatebwyr hynny a ofynnodd inni gadw eu hymateb yn gyfrinachol.
- Nid yw chwaith yn cynnwys yr ymatebwyr hynny na wnaeth ymateb yn benodol i'r cwestiwn hwn.

| Enw | Math o sefydliad |
|---|---|
| CSA Group Testing UK LTD | Busnes |
| CWM Environmental Ltd | Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol |
| Hafren Fasteners | Busnes |
| Cyngor Sir y Fflint | Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol |
| The Gamers' Emporium | Busnes |
| Reconomy Connect | Cwmni rheoli gwastraff |
| Coleg Cambria | Sefydliad sector cyhoeddus |
| LARAC | Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol |
| Glandŵr Cymru | Sefydliad trydydd sector |
| Nuclear Restoration Services | Sefydliad sector cyhoeddus |
| Trafnidiaeth Cymru | Sefydliad sector cyhoeddus |
| Thinkman Ltd | Busnes |
| Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru | Cymdeithas Fasnach |
| Cyngor Dinas Casnewydd | Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol |